# Bwletin CânSing

Hydref 2013



**Croeso i rifyn yr Hydref o fwletin CânSing, mae tîm CânSing wedi bod yn brysur iawn ers ein rhifyn diwethaf.**

Rydym wedi bod yn recordio caneuon newydd a ffilmio clipiau fideo tiwtorial newydd sydd wedi cael eu hanelu at yr athrawon – am ragor o wybodaeth, gweler yr adran 'adnoddau newydd'. Yr wyf yn gobeithio y byddwch yn mwynhau defnyddio ein hadnoddau Nadolig newydd. Os gwelwch yn dda a wnewch chi rannu recordiadau o'ch ysgol/côr/grŵp yn perfformio rhai o'r adnoddau yma gyda ni, byddem wrth ein bodd yn ychwanegu'r rhain at ein gwefan.

Eleni, bydd 200 o ysgolion yn cymryd rhan yn hyfforddiant CânSing, rydym eisoes wedi cyflwyno nifer o ddiwrnodau hyfforddiant y tymor hwn ac mae rhai eraill yn y broses o gael eu cynllunio. Os ydych yn gwybod am unrhyw ysgol sydd heb gymryd rhan hyd yma gyda CânSing – mae croeso i chi gysylltu â ni.

Nid oes amheuaeth bod llawer ohonoch wedi darllen yr adroddiad a'r argymhellion â gyhoeddwyd yn ddiweddar sef y ddogfen 'Adolygiad o'r Celfyddydau ym myd Addysg'. Rydym yn falch o weld bod prosiect CânSing wedi cael ei grybwyll mewn modd cadarnhaol. Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn ein cynorthwyo i ddangos faint o athrawon sydd yn defnyddio'r adnoddau ac yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant â gynigir drwy'r rhaglen.

Yn y cyfamser, gan na fyddwn yn cyhoeddi bwletin arall cyn y Nadolig, hoffwn ddymuno 'Cyfarchion y Tymor' a 2014 hapus! Os ydych am gysylltu â mi, e-bostiwch suzanne.barnes@castcymru.org.uk.

*Cofion cynnes, Suzanne, Rheolwr Prosiect CânSing.*

# Canu ar Stad Caia

Mae rhaglen celf cymunedol Opera Cenedlaethol Cymru yn Wrecsam sef Street Songs yn raglen 3 blynedd ar draws Sir Wrecsam. Mae un o animateurs lleisiol CânSing, Ruth Evans hefyd yn gweithio gyda Adran Ieuenctid a Chymuned Opera Cenedlaethol Cymru. Mae hyn wedi rhoi cyfle gwych iddi ddefnyddio repertoire CânSing ar gyfer Côr Teulu newydd OCC ar Stad Parc Caia yn Wrecsam.

Mae Côr Caia Choir yn gôr sydd yn rhad ac am ddim i aelodau'r teulu ac yn cael ei gynnal ar Stad Parc Caia, Wrecsam. Mae'n gyfle i ddod â phlant ac oedolion i gael hwyl a datblygu cyfeillgarwch drwy ganu. Ffurfiwyd y côr ym mis Ebrill 2013 dan ofal un o animateurs CânSing sef Ruth Evans. Rhoddodd y côr ei perfformiad cyhoeddus cyntaf yn Ysgol Saint Joseff Wrecsam (ar ddiwrnod Cenedlaethol CânSing ym mis Mehefin) ochr yn ochr a perfformiad gan Opera Cenedlaethol Cymru o 'Singing Doctor' gan Zoe Milton-Brown. Perfformiodd y côr dair eitem o repertoire CânSing yn y cyngerdd: 'Calypso', 'Sgw Bi Dw' a'r 'Byd yn Un'. Yn ystod mis Mehefin fe wnaethant recordio CD gyda dwy gân ar y CD yn dod o repertoire CânSing ('Calypso' a 'Sgw Bi Dw')!

Ym mis Medi fe wnaeth y Côr ail ddechrau ymarfer ar gyfer y tymor newydd, rydym yn gobeithio recriwtio mwy o gantorion! Fe fydd Côr Caia Choir y tro yma dan arweiniad y cyfarwyddwr cerdd gwych (a animateur CânSing) Jenny Pearson a'r cyfeilydd Annette Bryn Parri. Fe fydd ymarferion bob dydd Mawrth yn ystod y tymor (3.30 – 5.00yh gyda byrbrydau) yn y Ganolfan gymunedol yng Nghylch Kingsley, Parc Caia.

Os hoffech unrhyw wybodaeth bellach am y côr neu yn dymuno derbyn copi o CD Côr Caia Choir am ddim, e-bostiwch Arweinydd Ieuenctid a Chymuned OCC ruth.evans@wno.org.uk.

(www.facebook.com/streetsongs)



# Côr Donlau'r Dyffryn

## Elin Angharad Davies



Fe'm hysbrydolwyd i ffurfio Côr plant Donlau'r Dyffryn ar ôl bod ar gwrs CânSing yn gynharach eleni. Fel athrawes Gerddoriaeth a mam i bedwar o blant, roeddwn yn gweld fod bwlch yn y ddarpariaeth yn yr ardal a phrinder cyfleon i blant gyd-ganu, mwynhau a chymdeithasu drwy gyfrwng cerddoriaeth. Mae nifer o'r ysgolion cynradd yma yn Nyffryn Conwy yn gymharol wledig a bychan a heb ddigon o adnoddau i ffurfio Côr ysgol. Gyda chefnogaeth gwerthfawr Pennaeth Ysgol Dyffryn Conwy a Ruth Lloyd Owen, y cyfeilydd, cynhaliwyd yr ymarfer cyntaf ddechrau Ebrill eleni. Daeth 52 o blant brwdfrydig a thalentog o flynyddoedd 5–8 i'r ymarfer cyntaf yn Ysgol Dyffryn Conwy, Llanrwst, ac ers hynny mae'r Côr wedi mynd o nerth i nerth.

Un o amcanion eraill y Côr yw cefnogi Eisteddfodau a Gwyliau lleol, yn benodol yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych. Wrth chwilio am ddarnau addas ar gyfer ein rhaglen yn yr Eisteddfod eleni, doedd dim rhaid chwilio ymhellach na gwefan CânSing a dewiswyd dwy o'r caneuon sef Cân yr Elfennau gan Robat Arwyn a chyfieithiad o 'Sing out loud' ('Hon yw fy Nghân') gan Einion Dafydd. Gan fod Cân yr Elfennau yn sôn yn benodol am ddewis offerynnau i ychwanegu lliw i'r perfformiad, roedd yma gyfle gwych hefyd i'r offerynwyr yn y Côr i ddangos eu doniau a chanu'r trwmped, y trombôn a'r ffliwt fel cyfeiliant. Roedd 'Hon yw fy Nghân' yn ddewis heriol i gloi'r rhaglen a geiriau'r anthem Gymraeg yn ffitio rhythm y rap yn berffaith. Roedd y profiad o arwain y Côr ar y llwyfan mawr a gweld ymateb brwdfrydig yr aelodau yn wefreiddiol. Fel y dywedodd y beirniaid, roedd wynebau'r plant yn siarad cyfrolau ac ymateb y gynulleidfa'n fyddarol!

Mae gwefan CânSing wedi bod yn amhrisiadwy i ni fel hyfforddwyr ac mae'r plant wrth eu boddau gyda'r ymarferion a'r caneuon hwyliog. Mae'r ffaith fod modd gwrando ar y rhannau unigol ym mhob cân yn ddefnyddiol iawn gan fod rhai plant llai profiadol yn gallu gwrando a dysgu'r darnau gartref a'r rhieni hefyd yn gallu cynnig cefnogaeth. Mae sawl rhiant wedi canmol y wefan a thystio nad ydi eu plant erioed wedi canu cymaint o gwmpas y tŷ.

Diolch yn fawr CânSing am yr ysbrydoliaeth ac am wneud hyn i gyd yn bosibl. Mae bywydau 52 o blant a'u rhieni yma yn Nyffryn Conwy wedi cael eu cyfoethogi'n fawr o ganlyniad. Rydym yn gobeithio cystadlu yng Ngwyl Gorawl Gogledd Cymru yn Llandudno ymhen ychydig wythnosau.

*Diolch yn fawr i Lluniau Llwyfan am eu caniatâd caredig i ddefnyddio'r llun.*

## Dyddiadau hyfforddiant

**6 Tachwedd**
Sesiwn Hwyrnos: Opera Cenedlaethol Cymru, Caerdydd

**11 Tachwedd**
Rhondda Cynon Taf: DH2 (cyfrwng Saesneg)

**13 Tachwedd**
Sesiwn Hwyrnos: Ysgol Tan y Marian, Bae Colwyn

**14 Tachwedd**
Caerdydd a'r Fro: DH2 (cyfrwng Saesneg)

## Diweddaru?

**A ydych yn derbyn yr holl wybodaeth ddiweddaraf am CânSing?**

Os ydych chi wedi newid eich cyfeiriad e-bost ac yn dymuno parhau i gael yr holl wybodaeth ddiweddaraf am CânSing anfonwch e-bost at owaingethin@cansing.org.uk gyda eich cyfeiriad newydd fel y gallwn ddiweddaru ein manylion.

**A ydych yn dal i gofio eich enw defnyddiwr/cyfrinair?**

Os ydych wedi anghofio'ch enw defnyddiwr neu gyfrinair ar gyfer defnyddio'r holl adnoddau CânSing anfonwch e-bost at owaingethin@cansing.org.uk i adfer eich manylion.

# Adnoddau newydd

**I'ch helpu chi a'ch dysgwyr i baratoi ar gyfer eich gweithgareddau Nadolig yn yr ysgol bydd yna ddau Garol/Adnodd Nadolig newydd ar y safle yn fuan iawn!**

Y cyntaf ydi 'Medli Carolau' (Traddodiadol trefniant Osian Rowlands) a'r ail ydi 'Deuddeg dydd y Nadolig' (Traddodiadol trefniant Owain Gethin Davies).

Yn gynharach yn y mis fe wnaethom gyhoeddi taflen gyda gwybodaeth am ein holl Caneuon/Adnoddau Nadolig. Mae hwn hefyd ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan.

Byddwn hefyd yn rhyddhau pump o ganeuon newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn seiliedig ar y themâu canlynol: Ysgol, Mesur, Lliwiau, Plannu a Synhwyrau.

Yn dilyn poblogrwydd ein clipiau fideo ar y wefan, byddwn yn datblygu a cyhoeddi 10 o glipiau fideo newydd ar ffurf tiwtorial i athrawon ar sut i gynnal ymarferion cynhesu penodol. Hefyd, rydym wedi datblygu ymarferion bît bocsio newydd gyda Ed Holden er mwyn gallu perfformio y rhan bît bocsio yn y gân 'Yn gefn i mi' (Stand by me) sydd ar y wefan.

I gael rhagor o wybodaeth am adnoddau CânSing, e-bostiwch suzanne.barnes@castcymru.org.uk

# Caneuon tebyg

**Rydym wedi ychwanegu nodwedd newydd yn ein hadran caneuon ar y wefan.**

Pan fyddwch yn gweld unrhyw sgrîn cân bydd dau awgrym o ganeuon tebyg eraill y gallech ddysgu/canu ar ôl gorffen dysgu y gân y byddwch yn ei defnyddio. Ewch i weld unrhyw gân ar safle www.cansing.org.uk i weld y nodwedd newydd.



## A ydych yn ein dilyn ar Twitter?


Mae CânSing ar Twitter - dilynwch ni @cansingcymru ar gyfer yr holl newyddion diweddaraf am ddigwyddiadau hyfforddi ac adnoddau newydd. Mae'r trydar diweddaraf i'w gweld ar dudalen hafan ein gwefan.

**www.cansing.org.uk**

twitter FOLLOW US

# Defnydd o'r wefan:

**Ymweliadau cyfartalog dros y mis i wefan CânSing.**




CaST Cymru
Unit 1, Forest Studios
Ceinws, Machynlleth
Powys SY20 9HA

Ffôn: 01654 761568
www.castcymru.org.uk
www.cansing.org.uk

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Cymunedau a 'Sgolion fel Tîm CaST CYMRU Communities and Schools Together